



Wales **Co-operative** Centre
Canolfan **Cydweithredol** Cymru

[/cymru.coop](http://cymru.coop)



Canolfan Cydweithredol Cymru: Strategaeth 2017 - 2022

Creu Cymru well, decach a mwy cydweithredol

Cynnwys

Ein diben a'n stori	03
Ein cenhadaeth a'n nodau	03
Yr hyn y byddwn yn ei wneud i gyflawni ein nodau	04
Ein gwerthoedd cydweithredol	12
Y camau nesaf	13
Atodiad: Gwerthoedd ac Egwyddorion Cydweithredol Rhyngwladol	14

Ein diben a'n stori

Rydym yn sefydliad cydweithredol dielw sy'n helpu pobl yng Nghymru i wella eu bywydau a'u bywoliaethau. Dyma ein diben.

Rydym yn sefydliad cydweithredol dielw sy'n helpu pobl yng Nghymru i wella eu bywydau a'u bywoliaethau. Dyma ein diben.

Ers i ni gael ein sefydlu ym 1982, mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi bod wrth wraidd economi gymdeithasol ffyniannus Cymru, gan ddod ag arianwyr a phartneriaid at ei gilydd i wneud ein cymunedau yn fwy hyderus, yn fwy cydweithredol, yn fwy galluog ac yn fwy uchelgeisiol.

Mae ein gwaith yn bwysicach heddiw nag erioed, wrth i bobl, cymunedau a busnesau Cymru wynebu mwy a mwy o bwysau cymdeithasol ac economaidd.

Rydym yn gweithio tuag at economi decach. Rydym yn helpu i greu a chadw cyfoeth yn ein cymunedau drwy dyfu mentrau cydweithredol a busnesau cymdeithasol a rhoi'r sgiliau i bobl gymryd mwy o reolaeth dros eu bywydau eu hunain a chryfhau eu cymunedau.

Caiff popeth rydym yn ei wneud ei lywio gan ein hymrwymiad i werthoedd cydweithredol a'n cydweithrediad agos ag arianwyr a phartneriaid cyflawni i gyflawni nodau cymdeithasol ac economaidd.

Rydym yn helpu i adeiladu dyfodol gwell i bawb yng Nghymru

Ein cenhadaeth a'n nodau

Byddwn yn cyflawni ein diben drwy ein cenhadaeth, sef datblygu busnesau cynaliadwy a chymunedau cynhwysol cryf drwy gydweithredu. Rhwng 2017 a 2022, mae gennym y pum nod canlynol. Byddwn yn:

Hyrwyddo economi gynhwysol a chydweithredu – arwain y ddadl gyhoeddus, llunio'r gwaith o greu polisi, treialu prosiectau arloesol newydd, a rhannu ffyrdd llwyddiannus o weithio

Arwain y gwaith o dyfu mentrau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol, mentrau cymdeithasol a busnesau y mae'r gweithwyr yn berchen arnynt yng Nghymru – gweithio ym mhob sector, o siopau lleol bach i fusnesau gweithgynhyrchu mawr, gan wneud yr hyn sydd ei angen i helpu'r sector busnes

Galluogi pobl a chymunedau i wella eu bywydau a'u bywoliaethau, trechu tlodi a helpu i greu cymdeithas gynhwysol

Manteisio ar dechnoleg ddigidol a'i photensial o ran lles cymdeithasol ac o ran cyflawni diben cymdeithasol

Sefydliad cryf, annibynnol a chydweithredol sy'n sicrhau bod ein gwerthoedd yn sail i bopeth rydym yn ei wneud

Yr hyn y byddwn yn ei wneud i gyflawni ein nodau

Nod A: Byddwn yn hyrwyddo economi gynhwysol a chydweithredu – arwain y ddadl gyhoeddus, llunio'r gwaith o greu polisi, treialu prosiectau arloesol newydd, a rhannu ffyrdd llwyddiannus o weithio.

Cyd-destun

Nid yw dulliau traddodiadol o ddatblygu economaidd yn gweithio i Gymru gyfan. Mae twf economaidd wedi dod yn anghytwys. Mae anghydraddoldeb incwm yn cynyddu. Mae llawer o gymunedau ledled Cymru yn cael eu hesgeuluso.

Ar y cyfan, roedd 700,000 o bobl ar gyfartaledd mewn tlodi yng Nghymru yn y tair blynedd hyd at 2014-15. Nid yw swyddi'n unig yn datrys hyn. Mae tlodi mewn gwaith yn broblem sy'n tyfu. Yn 2014-15, roedd 60% o bobl a oedd yn byw mewn tlodi yn byw mewn aelwydydd a oedd yn gweithio – y ffigur uchaf a gofnodwyd hyd yn hyn. Mae cyflogau isel a lefelau uchel o dangyflogaeth yng Nghymru wedi cyfrannu at y cynnydd hwn yn nifer y bobl sy'n gweithio ac sydd mewn tlodi.

Er mwyn newid y sefyllfa hon, mae angen dull economaidd newydd. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru o'r farn bod angen llawer mwy o bwyslais ar adeiladu economïau lleol, lle mae cyfoeth yn cael ei greu a'i ailgylchu o fewn ardal y mae pobl yn teimlo'n rhan ohoni. Rydym o'r farn y dylai strategaeth economaidd greu'r amodau lle y gall economïau cryf, lleol sy'n canolbwyntio ar y gymuned ffynnu.

Mae busnesau cymdeithasol yn helpu i gefnogi economïau lleol. Mae ganddynt amcanion amgylcheddol a chymdeithasol, yn ogystal â rhai masnachol. Maent yn ail-fuddsoddi'r arian a wnânt yn eu busnes neu'r gymuned leol. Mae hyn yn eu galluogi i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol, gwella cyfleoedd bywyd pobl, cefnogi cymunedau a helpu'r amgylchedd. Rydym o'r farn y gallwn sicrhau economi fwy cytbwys a thecach drwy dyfu'r sector mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol a chanolbwyntio ar adeiladu economïau lleol.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i hybu'r achos dros economi gynhwysol. Er bod academyddion a melinau trafod yn cyhoeddi eu meddyliau a'u syniadau, nid oes sefydliad yn cyflawni yn y maes hwn ar hyn o bryd. Bydd Canolfan Cydweithredol Cymru yn ceisio chwarae rôl flaengar yn y maes hwn drwy wneud y canlynol:

Hyrwyddo mentrau cydweithredol

Dod â'r mentrau cydweithredol a'r cwmnïau cydfuddiannol mwyaf blaenllaw ynghyd i ddatblygu'r mudiad fel rhan o Gynghair o Gwmnïau Cydfuddiannol (cydweithio ymhlith mentrau cydweithredol)

Ariannu ymchwil a phapurau gwyntyllu, gan weithio â Sefydliad Bevan, y Sefydliad Materion Cymreig a melinau trafod arweiniol eraill

Cymryd rôl ragweithiol yn y ddadl gyhoeddus

Dylanwadu ar bolisiâu a rhaglenni, er enghraifft strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru

Treialu prosiectau ar gydweithredu neu sy'n helpu i greu economi gynhwysol

Cydweithredu â phartneriaid, megis Co-operative College, Co-operatives UK, Social Enterprise UK a'r Ganolfan Astudiaethau Economaidd Lleol er mwyn datblygu mentrau newydd a hybu arfer da

Sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei ariannu

Byddwn yn neilltuo cyllideb o'n hadnoddau ein hunain ac yn cynnwys gweithgareddau o fewn cyllidebau prosiectau lle y bo'n bosibl.

Mesur ein llwyddiant

Bydd ein llwyddiant yn cael ei fesur yn ôl y graddau y gallwn ddylanwadu ar bolisiâu a rhaglenni, yn ogystal â thwf y sector mentrau cydweithredol yng Nghymru.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud i gyflawni ein nodau

Nod B: Byddwn yn arwain twf mentrau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol, mentrau cymdeithasol a busnesau y mae'r gweithwyr yn berchen arnynt yng Nghymru.

Cyd-destun

Mae busnesau cymdeithasol yng Nghymru yn ffurfio sector dynamig sy'n tyfu ac sy'n cefnogi twf, swyddi a mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'r ymchwil ddiweddaraf yn amcangyfrif bod y sector yn werth £2.37 biliwn i economi Cymru ac yn cefnogi oddeutu 40,800 o swyddi. Yn aml, ceir busnesau cymdeithasol mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol, yn cefnogi cymunedau, yn cynnig swyddi a hyfforddiant ac, yn aml, yn darparu gwasanaethau nad yw eraill am ddarparu neu'n gallu eu darparu. Maent yn gwneud cyfraniad pwysig i'r ymgyrch i drechu tlodi ac i'r gwaith o greu economi sy'n gweithio i bawb yng Nghymru.

Mae'r sector yn tyfu, wrth i fusnesau cymdeithasol arallgyfeirio a dibynnu llai ar grantiau. Fodd bynnag, diffyg arian neu'r ffaith ei bod yn anodd cael gafael ar arian sy'n cyfyngu ar dwf busnesau yn bennaf, ac mae dros hanner y busnesau cymdeithasol yn wynebu rhwystrau ychwanegol, yn enwedig lefelau staffio annigonol, effaith Brexit a mesurau caledi'r sector cyhoeddus. Dywedodd llawer o fusnesau cymdeithasol fod angen cymorth arnynt i sicrhau buddsoddiad, marchnata ac arian i helpu i dyfu a chynnal eu busnesau.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Canolfan Cydweithredol Cymru yw'r brif asiantaeth sy'n cefnogi'r sector busnesau cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn falch o'n cyfraniad i gryfhau'r sector yng Nghymru, ond rydym yn gwybod y gallwn wneud mwy i helpu busnesau cymdeithasol i wireddu eu potensial.

Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn parhau i helpu busnesau cymdeithasol i ddechrau arni a thyfu. Byddwn yn addasu ac yn ehangu ein hystod o gynhyrchion a gwasanaethau i ddiwallu anghenion y sector. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid, gan gynnwys y CGGC, y Gymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu a Chwmnïau Cymdeithasol Cymru er mwyn dod â'n gwasanaethau ynghyd, osgoi dyblygu gwaith a sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r sector.

Byddwn yn parhau i gynnis y gwasanaethau canlynol:

Cymorth, cyngor ac arweiniad busnes arbenigol ar bynciau sy'n cynnwys cynllunio busnes, cyllid, AD a

Hyfforddiant a datblygu sgiliau

Arweiniad ar gyllid a buddsoddi, er mwyn helpu i gael gafael ar arian yn haws

Helpu i ddatblygu consortia a helpu cyflogaion i brynu eu cwmni

Gwybodaeth i'r sector drwy ddigwyddiadau a chylchlythyrau

Codi ymwybyddiaeth o fusnesau cymdeithasol, er enghraifft ymgyrchoedd 'Buy Social' a chynadledau cenedlaethol

Byddwn yn ehangu'r gwaith a wnawn, a fydd yn cynnwys ystyried y meysydd canlynol:

Cymorth cyn dechrau busnes a chymorth ar gyfer busnesau sydd newydd ddechrau, lle y byddwn yn cau'r

Gwasanaethau arbenigol, lle y byddwn yn ehangu ein gwasanaethau cymorth busnes penodol pan nodir meysydd o botensial arbennig. Rydym eisoes yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol, ond byddwn yn

Cyngor ar sgiliau digidol a TGCh i helpu busnesau i dyfu

Cynhyrchion ariannol sy'n helpu gyda bylchau ariannu

Gwasanaethau newydd a gaiff eu darparu'n ddigidol

Sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei ariannu

Tra bod y DU yn rhan o'r UE, byddwn yn parhau i ystyried Cronfeydd Strwythurol i helpu i dyfu'r sector busnesau cymdeithasol. Ar ôl i'r DU adael yr UE, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cymorth arbenigol yn dal i fod ar gael i'r sector busnesau cymdeithasol.

Mae'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn ogystal â'r busnesau cymdeithasol eu hunain, yn cydnabod gwerth ein sgiliau a'n profiad. Rydym wedi tyfu ein gwasanaeth ymgynghori, a byddwn yn buddsoddi i ehangu'r rhan hon o'r busnes dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Byddwn hefyd yn parhau i geisio arian gan ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Mesur ein llwyddiant

Byddwn yn mesur ein llwyddiant yn ôl faint mae'r sector wedi tyfu – nifer y swyddi a grëwyd, nifer y swyddi a ddiogelwyd a nifer y busnesau newydd – a thrwy ofyn am adborth gan ein cleientiaid mewn arolygon a gynhelir bob dwy flynedd o'r sector.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud i gyflawni ein nodau

Nod C: Byddwn yn galluogi pobl a chymunedau i wella eu bywydau a'u bywoliaethau, trechu tlodi a helpu i greu cymdeithas gynhwysol.

Cyd-destun

Nid dim ond busnesau y mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn eu cefnogi. Rydym yn cefnogi pobl a chymunedau hefyd. Ers dros ddegawd, rydym wedi bod yn helpu pobl i ddatblygu sgiliau digidol sylfaenol er mwyn iddynt allu cael gwybodaeth, gwasanaethau a swyddi. Rydym wedi hyrwyddo undebau credyd a chefnogi pobl i reoli eu harian. Rydym hefyd wedi helpu pobl i ddod ynghyd i reoli eu cartrefi mewn ffordd gydweithredol. Rydym yn gobeithio ehangu'r gwaith hwn dros y blynyddoedd i ddod.

Mae tlodi yn parhau'n bla ar lawer o gymunedau yng Nghymru. Yn ôl adroddiad monitro tlodi Sefydliad Joseph Rowntree a gynhelir bob dwy flynedd yng Nghymru, roedd mwy o bobl o oedran gweithio yn byw mewn tlodi yn 2015 o'u cymharu â deng mlynedd yn gynt. Erbyn hyn, mae mwy o bobl mewn gwaith yn byw mewn tlodi na phobl nad ydynt mewn cyflogaeth â thâl sy'n byw mewn tlodi. Mae gan Ganolfan Cydweithredol Cymru rôl i'w chwarae wrth helpu i ymateb i'r materion hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr hyn y bydd yn ei wneud i leihau tlodi ar ôl i'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf ddod i ben. Yn ein barn ni, mae'n rhaid i hybu a chefnogi gweithgarwch economaidd o fewn ein cymunedau tlotach fod wrth wraidd dull newydd y Llywodraeth i greu cymunedau cryf. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi gweithio'n agos gyda Chymunedau'n Gyntaf, a bydd yn parhau i chwarae rôl yn yr ymdrechion i drechu tlodi a chreu cymunedau cryf yn y dyfodol.

O dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ddiwallu anghenion heddiw heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae gwaith Canolfan Cydweithredol Cymru yn cyd-fynd yn agos â'r Ddeddf. Rydym o'r farn bod y Ddeddf yn cynnig sylfaen gwych newydd er mwyn ein helpu i rymuso pobl a chymunedau i wella eu bywydau a'u bywoliaethau a rhoi gwerthoedd cydweithredol ar waith.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Bydd ein dull o rymuso unigolion a chymunedau yn un cydweithredol. Byddwn yn helpu i ddatblygu cymunedau mewn modd cynaliadwy. Byddwn yn galluogi pobl i ddod o hyd i hyfforddiant a dysgu sgiliau newydd er mwyn iddynt allu cael rhagor o reolaeth dros eu bywydau.

Bydd y gwaith hwn yn cynnwys:

Cadw ein rôl arweiniol fel sefydliad sy'n hybu ac yn cyflwyno mentrau cynhwysiant ariannol

Cyflawni'r strategaeth dai gydweithredol newydd er mwyn cynyddu a chynnal y mudiad tai cydweithredol sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru

Cefnogi cymunedau i ddatblygu gwasanaethau sydd eu heisiau ac sydd eu hangen arnynt, er enghraifft cynhyrchu ynni cymunedol

Datblygu cymunedau cryf drwy helpu sefydliadau mawr i wario mwy o'u harian yn lleol a chefnogi rhwydweithiau o fentrau cydweithredol lleol a busnesau eraill

Gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chyrrff cyhoeddus i fwrw ymlaen â'r saith nod llesiant

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar yr hyn sy'n dilyn y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf

Sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei ariannu

Bydd y gwaith hwn yn cael ei ariannu drwy gyflwyno ein cynigion ein hunain i ymddiriedolaethau a sefydliadau, yn ogystal â gwneud ceisiadau am grantiau a chontractau gan gyrff cyhoeddus i ymgymryd â'r gweithgareddau hyn.

Mesur ein llwyddiant

Byddwn yn mesur ein llwyddiant yn ôl nifer yr unigolion a grwpiau cymunedol rydym yn eu cefnogi, yn ôl nifer y cartrefi cydweithredol newydd sydd ar gael ac yn ôl y newidiadau cadarnhaol rydym yn eu gwneud i bolisiau ac arferion.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud i gyflawni ein nodau

Nod D: Byddwn yn manteisio ar dechnoleg ddigidol a'i photensial o ran lles cymdeithasol ac o ran cyflawni diben cymdeithasol.

Cyd-destun

Rydym o'r farn bod modd manteisio ar dechnoleg ddigidol i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag, nid yw ei photensial yn cael ei gwireddu, yn enwedig yn y sector elusennau a'r sector busnesau cymdeithasol. Rydym am helpu i newid hynny.

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru mewn sefyllfa gref i fanteisio ar dechnoleg ddigidol er mwy sicrhau lles cymdeithasol. Mae ein tîm medrus wedi bod yn helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau digidol am fwy na degawd. Mae gennym brofiad o ddatblygu cynhyrchion digidol i helpu i gyflawni ein diben, ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag arloeswyr CAST (y Ganolfan ar gyfer Cyflymu Technoleg Gymdeithasol).

Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Byddwn yn ehangu ein hoffrwm digidol. Bydd hyn yn golygu gwneud mwy o waith ar gynhwysiant digidol a sgiliau digidol i helpu sefydliadau, yn enwedig busnesau cymdeithasol ac elusennau, i gael yr effaith fwyaf bosibl drwy gefnogi eu hesblygiad digidol ac annog arloesi digidol. Byddwn yn datblygu partneriaethau newydd gydag arloeswyr eraill yn y maes ac yn ymchwilio i botensial llwyfannau digidol sydd ag ethos cydweithredol.

Mae'n bwysig ein bod yn gweithredu ar yr hyn a addysgwn, drwy weithi mewn ffordd ddigidol yn gyntaf. Yn ein barn ni, gall technoleg ddigidol ein gwneud yn fwy effeithiol ac yn fwy cydweithredol. Byddwn yn rhoi strategaeth ddigidol ar waith sy'n nodi sut y gall y sefydliad gyflawni ei nodau a sicrhau bod ein pobl yn gallu gweithio'n fwy effeithlon ac yn effeithiol drwy ddefnyddio technoleg ddigidol.

Sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei ariannu

Byddwn yn parhau i geisio arian gan gyrff cyhoeddus, yn ogystal ag ymddiriedolaethau a sefydliadau, er mwyn helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau digidol a datblygu cynhyrchion digidol sy'n helpu'r sector busnesau cymdeithasol.

Yn sgil ymchwil bellach i'r farchnad, rydym yn bwriadu rhoi gwasanaeth y talwyd amdano ar waith sy'n helpu sefydliadau eraill i fanteisio ar dechnoleg ddigidol hyd yr eithaf er mwyn cyflawni eu diben.

Mesur ein llwyddiant

Bydd ein llwyddiant yn cael ei fesur yn ôl yr adborth a gawn gan gleientiaid a'r incwm rydym yn ei gynhyrchu o'r rhan newydd hon o'n busnes.

Nod E: Byddwn yn sefydliad cryf, annibynnol a chydweithredol sy'n sicrhau bod ein gwerthoedd yn sail i bopeth rydym yn ei wneud.

Cyd-destun

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi bod mewn busnes ers dechrau'r 1980au. Mae ein cynaliadwyedd wedi deillio o lywodraethu cryf ac enw da am gyflawni. Er ei bod wedi parhau i anelu at nod clir, mae'r Ganolfan wedi gallu addasu mewn byd newidiol. Byddwn yn parhau i ymateb i'r newidiadau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Cymru yn y blynyddoedd i ddod.

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn sefydliad cydweithredol a bydd gwerthoedd y mudiad cydweithredol yn dal i fod wrth wraidd ein sefydliad.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn fusnes sy'n seiliedig ar werthoedd. Byddwn yn parhau i ymgorffori gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol yn y ffordd rydym yn gweithio'n fewnol a chydag eraill. Yn arbennig, rydym yn gwybod y gallwn wneud mwy i gryfhau'r hyn a gynigir gennym i aelodau presennol a darpar aelodau a'u cynnwys mewn ffordd fwy rhagweithiol yn y broses o wneud polisiau a phenderfyniadau (egwyddor gydwethredol 2 – gweler yr atodiad). Byddwn yn canolbwyntio ar hyn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae ein henw da am gadw at ein gair ac am ddarparu gwasanaethau o ansawdd yn bwysig i ni. Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i wella'n barhaus a sicrhau boddhad cwsmeriaid. Mae marciau ansawdd allanol, megis Buddsoddwyr mewn Pobl, y System Sicrhau Ansawdd Ymarferol i Fudiadau Bach a'r Ddraig Werdd, wedi cadarnhau safon ein gwaith a'n nod yw cadw'r achrediadau hyn.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi amrywio ein sylfaen incwm, a byddwn yn parhau i wneud hyn. Mae ein cylch gwaith yn ehangach heddiw nag yr oedd yn flaenorol, gan gynnig ystod ehangach o gyfleoedd. O ganlyniad, byddwn yn meithrin cydberthnasau ag ystod hyd yn oed yn fwy o arianwyr, gan ennill mwy o gcontractau a datblygu ein gwasanaethau ymgynghori. Ein nod yw cynnal maint y busnes, gan ddatblygu lefel ein cronfeydd wrth gefn ar yr un pryd er mwyn sicrhau ein dyfodol.

Byddwn yn ailfuddsoddi unrhyw arian dros ben yn ein busnes, gan roi blaenoriaeth i fuddsoddi yn sgiliau ein staff, datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd a thyfu ein cronfeydd wrth gefn ymhellach.

Sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei ariannu

Mae'r maes gwaith hwn yn sylfaen i bopeth a wnawn, a bydd arian ar gael gan y contractau a'r cyllid rydym yn eu sicrhau, yn ogystal ag unrhyw arian dros ben.

Mesur ein llwyddiant

Byddwn yn defnyddio'r mesurau canlynol: gwerthusiadau allanol, arolwg staff blynyddol, ein trosiant, arian dros ben a chronfeydd wrth gefn, adborth gan gleientiaid ac arianwyr, achrediadau gan y System Sicrhau Ansawdd Ymarferol i Fudiadau Bach a Buddsoddwyr mewn Pobl.

Ein gwerthoedd cydweithredol

Wrth wraidd ein gwaith ceir ymrwymiad i roi cefnogaeth i bobl, cymunedau a busnesau mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu ac yn atgyfnerthu ein gwerthoedd cydweithredol. Yn ein barn ni, mae'r ffordd rydym yn gwneud pethau yr un mor bwysig â'r hyn a wnawn.

Mae ein gwerthoedd wedi'u hysbrydoli gan y gwerthoedd cydweithredol rhyngwladol (gweler yr atodiad), ond maent wedi'u hysgrifennu yn ein geiriau ein hunain. Maent yn dangos beth rydym yn ei wneud, sut rydym yn gwneud pethau a ble yr hoffem fod. Mae pob aelod o staff, aelod o'r bwrdd a gwirfoddolwr yn ymrwmo i weithredu yn ôl ein gwerthoedd.

Mae ein gwerthoedd yn ein helpu i wneud y canlynol:

Bod yn gydweithredol ... rydym yn cydweithio er budd i'r ddwy ochr

Bod yn gefnogol ... rydym yn rhoi o'n hamser ac yn cynnig ein harbenigedd a'n cefnogaeth

Bod yn deg ... rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth a democratiaeth

Bod yn ddidwyll ... rydym yn ceisio bod yn agored ac yn onest ym mhopeth a wnawn

Bod yn gadarnhaol ... rydym yn buddsoddi ein hegni er mwyn sicrhau canlyniadau

Bod yn ysbrydoledig ... rydym yn annog pobl, cymunedau a busnesau i gymryd rheolaeth a gwireddu eu potensial.

Bob blwyddyn, byddwn yn datblygu cynllun blynyddol a fydd yn troi'r strategaeth hon yn gamau gweithredol i'w cymryd i gyflawni ein pum nod.

Bydd y cynllun blynyddol yn cynnwys sawl amcan SMART, a byddant yn cael eu defnyddio i fesur ein cynnydd.

Mae ein hamcanion ar gyfer 2017-18 fel a ganlyn:

1. Byddwn yn cyrraedd neu'n rhagori ar bob un o'n targedau cyflawni prosiect erbyn diwedd mis Mawrth 2018 ac yn cadw grantiau a chontractau presennol.
2. Byddwn yn ennill busnes newydd yn ystod 2017-18. Bydd ein trosiant yn cael ei gynnal rhwng £4 a £4.5 miliwn yn ein cyllideb ar gyfer 2018-19, a byddwn wedi amrywio ein hincwm fel bod Llywodraeth Cymru a'r UE yn ariannu llai nag 80%.
3. Byddwn yn cynnal ac yn gwella ansawdd yr hyn a wnawn. Eleni, byddwn yn cadw ein statws Buddsoddwyr mewn Pobl a'n hachrediad gan y System Sicrhau Ansawdd Ymarferol i Fudiadau Bach ar lefel 2. Bydd ein sgôr boddhad cwsmeriaid gyfartalog yn uwch na 4 allan o 5 yn 2017-18. Yn yr arolwg staff, bydd staff yn datgan eu bod yn fodlon ar Ganolfan Cydweithredol Cymru fel lle i weithio drwy roi sgôr o 4 neu fwy allan o 5.
4. Byddwn yn ceisio gwella ein gwaith llywodraethu yn barhaus. Eleni, byddwn yn cynyddu ein haelodaeth i 85 (cynnydd o 20%) gydag o leiaf 5 aelod busnes cymdeithasol newydd. Bydd presenoldeb y Bwrdd mewn cyfarfodydd ar lefel o 80% neu'n uwch yn ystod 2017-18.
5. Byddwn yn cynyddu effaith ein bolisiau a materion cyhoeddus drwy ddylanwadu'n llwyddiannus ar bolisiau ac arferion economaidd a chymdeithasol. Byddwn yn dangos hyn drwy enghreifftiau o newidiadau i bolisiau a mentrau newydd sy'n codi o ganlyniad i'n gwaith.

Atodiad: Gwerthoedd ac Egwyddorion Cydweithredol Rhyngwladol

Fel sefydliad cydweithredol, mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn cydymffurfio â'r Gwerthoedd a'r Egwyddorion Cydweithredol Rhyngwladol. Mae Cynghrair Rhyngwladol y Mentrau Cydweithredol wedi crynhoi'r gwerthoedd a'r egwyddorion hyn fel a ganlyn:

Gwerthoedd:

Mae mentrau cydweithredol yn seiliedig ar werthoedd hunangymorth, hunangyfrifoldeb, democratiaeth, cydraddoldeb, cyfiawnder a chydgefnogaeth. Yn unol â thraddodiad eu sefydlwyr, mae aelodau o fentrau cydweithredol yn credu mewn gwerthoedd moesegol gonestrwydd, didwylledd, cyfrifoldeb cymdeithasol a gofalu am eraill.

Egwyddorion:

Mae'r egwyddorion cydweithredol yn ganllaw y mae mentrau cydweithredol yn ei ddilyn i roi eu gwerthoedd ar waith.

Egwyddor 1: Aelodaeth Wirfoddol ac Agored

Mae mentrau cydweithredol yn sefydliadau gwirfoddol sy'n agored i bob unigolyn a all ddefnyddio eu gwasanaethau ac sy'n barod i dderbyn cyfrifoldebau aelodaeth, heb wahaniaethu yn eu herbyn ar sail rhyw, ffactor cymdeithasol, hil, barn wleidyddol neu grefydd.

Egwyddor 2: Rheolaeth Ddemocrataidd gan Aelodau

Mae mentrau cydweithredol yn sefydliadau democrataidd a reolir gan eu haelodau, ac mae'r aelodau hynny yn cymryd rhan ragweithiol yn y broses o wneud polisiau a phenderfyniadau. Mae dynion a menywod sy'n gwasanaethu fel cynrychiolwyr etholedig yn atebol i'r aelodaeth. Mewn mentrau cydweithredol cynradd, mae gan aelodau hawliau pleidleisio cyfartal (un aelod, un bleidlais) a chaiff mentrau cydweithredol ar lefelau eraill eu trefnu mewn modd democrataidd.

Egwyddor 3: Cyfranogiad Economaidd Aelodau

Mae aelodau yn cyfrannu'n deg at gyfalaf eu mentrau cymdeithasol ac yn ei reoli'n ddemocrataidd. Fel arfer, eiddo cyffredinol y fenter gydweithredol yw o leiaf ran o'r cyfalaf hwnnw. Fel arfer, nid ydynt yn cael llawer o iawndal, os o gwbl, ar gyfalaf tanysgrifiedig fel amod aelodaeth. Mae aelodau yn clustnodi arian dros ben at bob un, neu unrhyw rai, o'r dibenion canlynol: datblygu'r fenter gydweithredol, o bosibl drwy agor cronfeydd wrth gefn, y byddai rhan ohoni yn anrhanadwy o leiaf; aelodau yn elwa yn ôl cyfran eu trafodion gyda'r fenter gydweithredol; a chefnogi gweithgareddau eraill a gymeradwywyd gan yr aelodaeth.

Egwyddor 4: Ymreolaeth ac Annibyniaeth

Mae mentrau cydweithredol yn sefydliadau hunangymorth ymreolus sy'n cael eu rheoli gan eu haelodau. Os byddant yn llunio cytundeb â sefydliadau eraill, gan gynnwys llywodraethau, neu'n codi cyfalaf o ffynonellau allanol, byddant yn gwneud hynny ar delerau sy'n sicrhau rheolaeth ddemocrataidd gan eu haelodau ac sy'n cynnal eu hymreolaeth gydweithredol.

Egwyddor 5: Addysg, Hyfforddiant a Gwybodaeth

Mae mentrau cydweithredol yn darparu addysg a hyfforddiant i'w haelodau, cynrychiolwyr etholedig, rheolwyr a chyflogeion er mwyn iddynt allu cyfrannu'n effeithiol at y broses o'u datblygu. Maent yn rhoi gwybod i'r cyhoedd – yn enwedig pobl ifanc a'r rhai y mae eu barn yn dylanwadu ar farn pobl eraill – am natur a manteision cydweithredu.

Egwyddor 6: Cydweithredu ymhlith Mentrau Cydweithredol

Mae mentrau cydweithredol yn gwasanaethu eu haelodau yn fwyaf effeithiol ac yn atgyfnerthu'r mudiad cydweithredol drwy gydweithio drwy strwythurau lleol, cenedlaethol, rhanbarthol a rhyngwladol.

Egwyddor 7: Pryder am y Gymuned

Gan ganolbwyntio ar anghenion yr aelodau, bydd mentrau cydweithredol yn gweithio i ddatblygu eu cymunedau mewn modd cynaliadwy drwy bolisïau a dderbynnir gan eu haelodau.

Canolfan Cydweithredol Cymru

Y Borth

13 Ffordd Beddau

Caerffili

CF83 2AX

Ffon: 0300 111 5050

Ebost: info@wales.coop

Y We: www.wales.coop

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebu â ni yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi.